YSGOL BRYNREFAIL

APEL HAITI

Yn sgil newyddion am y daeargryn erchyll yn Haiti fe aeth dau ddisgybl o'r chweched dosbarth, sef Greta Fflur Jams ac Enfys Elen Roberts ati i drefnu casglu arian tuag at Apêl Haiti.

Gyda chefnogaeth y Pennaeth fe fynychodd y ddwy gyfarfod yn y Bontnewydd gydag aelodau o Glwb Rotari Caernarfon i egluro eu syniadau. I gychwyn y gronfa derbyniwyd siec o £250 gan Gymdeithas Chweched Dosbarth yr ysgol a hefyd cafwyd cyfraniad o £250 o Gronfa'r ysgol.

Ar nos Fercher, 27 Ionawr, mewn noson rhieni blwyddyn 9 darparwyd lluniaeth ysgafn gan griw bychan o enethod y chweched dosbarth, gyda'r arian a gasglwyd yn mynd i'r gronfa.

Ac ar y dydd Gwener, 29 Ionawr cafwyd diwrnod di-wisg ysgol gyda'r holl ddisgyblion a'r staff yn cefnogi. Coginiodd y genethod y chweched dosbarth, deisennau a bisgedi a'u gwerthu i'r disgyblion yn ystod egwyl y bore. Yn ogystal trefnwyd 'Tawelwch Noddedig' gan ddau ddisgybl o flwyddyn 8.

Casglwyd cyfanswm o £1,831.52 gan yr ysgol tuag yr Apel. Felly bydd o leiaf tri 'shelter box' yn cael ei anfon yn enw Ysgol Brynrefail i drigolion Haiti.

Greta Fflur Jams o Fethel ac Enfys Elen Roberts o Ceunant, yn cyflwyno siec am £1,831.52 i gynrychiolwyr Clwb Rotari Caernarfon, Mr Rhys Prydderch (Llywydd) ac Mr Dafydd Jones.